CERTIFIED A TRUE COPY
WELSH MINISTERS

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

## 2019 Rhif 871 (Cy. 158)

## PRIFFYRDD, CYMRU

# Gorchymyn Gorchymyn Cefnffordd Castell-nedd – Y Fenni (A465) (Deuoli o'r Fenni i Hirwaun a'r Ffyrdd Ymuno ac Ymadael) a Ffordd Man i'r Dwyrain o Abercynon – Man i'r Dwyrain o Ddowlais (A4060), Cefnffordd Caerdydd – Glanconwy (A470) (Ffyrdd Cysylltu) 1999 (Dowlais Top i Hirwaun) (Diwygio) 2019

### NODYN ESBONIADOL

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)

Mae'r Gorchymyn yn diwygio Gorchymyn Cefnffordd Castell-nedd – Y Fenni (A465) (Deuoli o'r Fenni i Hirwaun a'r Ffyrdd Ymuno ac Ymadael) a Ffordd Man i'r Dwyrain o Abercynon – Man i'r Dwyrain o Ddowlais (A4060), Cefnffordd Caerdydd – Glanconwy (A470) (Ffyrdd Cysylltu) 1999 fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn Diwygio yn 2012 a Gorchymyn Diwygio yn 2014, o ran y darn o'r brif gefnffordd newydd rhwng Dowlais Top a Hirwaun (a elwir Adrannau 5 a 6); mae hefyd yn darparu ar gyfer rhai newidiadau i drefniadau'r cyffyrdd gan gynnwys diwygio'r ffyrdd ymuno ac ymadael newydd sydd i'w darparu a darparu ffyrdd ymuno ac ymadael ychwanegol, hepgor ffyrdd ymuno ac ymadael a diwygio ffordd gysylltu.

Roedd Gorchymyn Diwygio 2012 yn diwygio Gorchymyn 1999 o ran y darnau o'r gefnffordd newydd (yr A465) rhwng Bryn-mawr a Thredegar (a elwir Adran 3). Roedd Gorchymyn Diwygio 2014 yn diwygio Gorchymyn 1999 o ran y darnau o'r gefnffordd newydd (yr A465) rhwng Gilwern a Bryn-mawr (a elwir Adran 2). Mae'r Gorchymyn hwn yn diwygio Gorchymyn 1999 ymhellach o ran y darnau o gefnffyrdd newydd (yr A465 a'r A470) rhwng Dowlais Top a Hirwaun (Adrannau 5 a 6).

Mae erthygl 2 yn diwygio'r disgrifiad o'r planiau a adneuwyd yng Ngorchymyn 1999 o ran llinell Adrannau 5 a 6 o'r gefnffordd newydd (yr A465) drwy

WELSH STATUTORY INSTRUMENTS

## 2019 No. 871 (W. 158)

## HIGHWAYS, WALES

# The Neath to Abergavenny Trunk Road (A465) (Abergavenny to Hirwaun Dualling and Slip Roads) and East of Abercynon to East of Dowlais Trunk Road (A4060), Cardiff to Glan Conwy Trunk Road (A470) (Connecting Roads) Order 1999 (Dowlais Top to Hirwaun) (Amendment) Order 2019

### EXPLANATORY NOTE

(This note is not part of the Order)

The Order amends the Neath to Abergavenny Trunk Road (A465) (Abergavenny to Hirwaun Dualling and Slip Roads) and East of Abercynon to East of Dowlais Trunk Road (A4060), Cardiff to Glan Conwy Trunk Road (A470) (Connecting Roads) Order 1999 as amended by a 2012 Amendment Order and a 2014 Amendment Order, in respect of the length of the main new trunk road between Dowlais Top and Hirwaun (known as Sections 5 and 6); it also provides for some changes to junction arrangements including the amendment of new slip roads to be provided and provision of additional slip roads, the omission of slip roads and the amendment of a connecting road.

The 2012 Amendment Order amended the 1999 Order in respect of the lengths of the new trunk road (A465) between Brynmawr and Tredegar (known as Section 3). The 2014 Amendment Order amended the 1999 Order in respect of the lengths of the new trunk road (A465) between Gilwern and Brynmawr (known as Section 2). This Order further amends the 1999 Order in respect of the lengths of the new trunk roads (A465 and A470) between Dowlais Top and Hirwaun (Sections 5 and 6).

Article 2 amends the description of the deposited plans in the 1999 Order in respect of the line of Sections 5 and 6 of the new trunk road (A465) by replacing Key Plan 2, Site Plan 7, Site Plan 8, Site Plan 9, Site Plan 10 and Site Plan 11 in the existing

roi Plan Allweddol 2A, Plan Safle 7A, Plan Safle 8A, Plan Safle 9A, Plan Safle 10A a Phlan Safle 11A yn y plan a adneuwyd fel y'i diwygiwyd gan y Gorchymyn hwn yn lle Plan Allweddol 2, Plan Safle 7, Plan Safle 8, Plan Safle 9, Plan Safle 10 a Phlan Safle 11 yn y planiau a adneuwyd presennol.

Mae erthygl 3 yn diwygio Atodlen 2 i Orchymyn 1999 o ran Adrannau 5 a 6 drwy ddileu disgrifiadau o ffyrdd ymuno ac ymadael sydd i'w hepgor a mewnosod disgrifiadau o'r ffyrdd ymuno ac ymadael newydd sydd i'w darparu.

Mae erthygl 4 yn diwygio Atodlen 2 i Orchymyn 1999 o ran Adrannau 5 a 6 drwy ddiwygio'r disgrifiad o ffordd gysylltu sydd wedi ei gynnwys yn y disgrifiad o'r ffyrdd ymuno ac ymadael newydd.

Mae erthygl 5 yn diwygio Atodlen 2 i Orchymyn 1999 o ran Adrannau 5 a 6 drwy fewnosod disgrifiadau newydd o'r ffyrdd ymuno ac ymadael sydd i'w darparu wrth gyffordd a ailaliniwyd.

Mae erthygl 6 yn diwygio Atodlen 2 i Orchymyn 1999 o ran Adrannau 5 a 6 drwy fewnosod disgrifiadau o'r ffyrdd ymuno ac ymadael newydd sydd i'w darparu wrth gyffordd ychwanegol.

Mae erthygl 7 yn diwygio Atodlen 3 i Orchymyn 1999 o ran Adrannau 5 a 6 drwy ddiwygio disgrifiad o ffordd gysylltu sydd i'w darparu.

deposited plans, with Key Plan 2A, Site Plan 7A, Site Plan 8A, Site Plan 9A, Site Plan 10A and Site Plan 11A in the deposited plan as amended by this Order.

Article 3 amends Schedule 2 to the 1999 Order in respect of Sections 5 and 6 by removing descriptions of slip roads to be omitted and inserting descriptions of the new slip roads to be provided.

Article 4 amends Schedule 2 to the 1999 Order in respect of Sections 5 and 6 by amending the description of a connecting road included in the description of the new slip roads.

Article 5 amends Schedule 2 to the 1999 Order in respect of Sections 5 and 6 by inserting new descriptions of slip roads to be provided at a realigned junction.

Article 6 amends Schedule 2 to the 1999 Order in respect of Sections 5 and 6 by inserting descriptions of new slip roads to be provided at an additional junction.

Article 7 amends Schedule 3 to the 1999 Order in respect of Sections 5 and 6 by amending a description of a connecting road to be provided.

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2019 Rhif (Cy. )

# PRIFFYRDD, CYMRU

## Gorchymyn Gorchymyn Cefnffordd Castell-nedd – Y Fenni (A465) (Deuoli o'r Fenni i Hirwaun a'r Ffyrdd Ymuno ac Ymadael) a Ffordd Man i'r Dwyrain o Abercynon – Man i'r Dwyrain o Ddowlais (A4060), Cefnffordd Caerdydd – Glanconwy (A470) (Ffyrdd Cysylltu) 1999 (Dowlais Top i Hirwaun) (Diwygio) 2019

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *16 Ebrill 2019* |
| *Yn dod i rym* | *30 Ebrill 2019* |

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 10 o Ddeddf Priffyrdd 1980(**1**), a phob pŵer galluogi arall(**2**), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

### Enwi, Cychwyn a Dehongli

**1.** (1) Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 30 Ebrill 2019. Enw'r Gorchymyn hwn yw "Gorchymyn Gorchymyn Cefnffordd Castell-nedd – Y Fenni (A465) (Deuoli o'r Fenni i Hirwaun a'r Ffyrdd Ymuno ac Ymadael) a Ffordd Man i'r Dwyrain o Abercynon – Man i'r Dwyrain o Ddowlais (A4060) a Chefnffordd Caerdydd – Glanconwy (A470) (Ffyrdd Cysylltu) 1999 (Dowlais Top i Hirwaun) (Diwygio) 2019".

(**1**) 1980 p. 66

(**2**) Yn rhinwedd erthygl 2 o O. S. 1999/672, ac Atodlen 1 iddo, ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r pwerau hyn bellach wedi eu trosglwyddo i Weinidogion Cymru o ran Cymru

WELSH STATUTORY INSTRUMENTS

# 2019 No. (W. )

# HIGHWAYS, WALES

## The Neath to Abergavenny Trunk Road (A465) (Abergavenny to Hirwaun Dualling and Slip Roads) and East of Abercynon to East of Dowlais Trunk Road (A4060) and Cardiff to Glan Conwy Trunk Road (A470) (Connecting Roads) Order 1999 (Dowlais Top to Hirwaun) (Amendment) Order 2019

| | |
|---|---|
| *Made* | *16 April 2019* |
| *Coming into force* | *30 April 2019* |

The Welsh Ministers, in exercise of powers conferred by section 10 of the Highways Act 1980(**1**), and of all other enabling powers (**2**), make this Order.

### Title, Interpretation and Commencement

**1.** (1) This Order comes into force on 30 April 2019 and its title is "The Neath to Abergavenny Trunk Road (A465) (Abergavenny to Hirwaun Dualling and Slip Roads) and East of Abercynon to East of Dowlais Trunk Road (A4060), Cardiff to Glan Conwy Trunk Road (A470) (Connecting Roads) Order 1999 (Dowlais Top to Hirwaun) (Amendment) Order 2019".

(**1**) 1980 c.66

(**2**) By virtue of S. I. 1999/672 article 2 and Schedule 1, and section 162 of, and paragraph 30 of Schedule 11 to, the Government of Wales Act 2006, these powers are now transferred to the Welsh Ministers in relation to Wales

(2) Yn y Gorchymyn hwn ystyr y 'Prif Orchymyn' yw Gorchymyn Cefnffordd Castell-nedd – Y Fenni (A465) (Deuoli o'r Fenni i Hirwaun a'r Ffyrdd Ymuno ac Ymadael) a Ffordd Man i'r Dwyrain o Abercynon – Man i'r Dwyrain o Ddowlais (A4060), Cefnffordd Caerdydd – Glanconwy (A470) (Ffyrdd Cysylltu) 1999(3) fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn Cefnffordd Castell-nedd – Y Fenni (A465) (Deuoli o'r Fenni i Hirwaun a'r Ffyrdd Ymuno ac Ymadael) a Ffordd Man i'r Dwyrain o Abercynon – Man i'r Dwyrain o Ddowlais (A4060) a Chefnffordd Caerdydd – Glanconwy (A470) (Ffyrdd Cysylltu) 1999 (Bryn-mawr i Dredegar) (Diwygio) 2012(4) ac fel y'i diwygiwyd ymhellach gan Orchymyn Cefnffordd Castell-nedd – Y Fenni (A465) (Deuoli o'r Fenni i Hirwaun a'r Ffyrdd Ymuno ac Ymadael) a Chefnffordd Man i'r Dwyrain o Abercynon – Man i'r Dwyrain o Ddowlais (A4060), Cefnffordd Caerdydd – Glanconwy (A470) (Ffyrdd Cysylltu) 1999 (Gilwern i Fryn-mawr) (Diwygio) 2014(5).

**Diwygio'r Planiau Adneuedig gan gynnwys y darlun o Lwybr y Brif Gefnffordd newydd**

2. Yn erthygl 6 o'r Prif Orchymyn, yn lle paragraff (2)(i) rhodder y canlynol–

"(2)(i) ystyr "y plan adneuedig" yw'r planiau a rifwyd HA10/2 WO131 a'u marcio "Gorchymyn Cefnffordd Castell-nedd – Y Fenni (A465) (Deuoli o'r Fenni i Hirwaun a'r Ffyrdd Ymuno ac Ymadael) a Ffordd Man i'r Dwyrain o Abercynon – Man i'r Dwyrain o Ddowlais (A4060), Cefnffordd Caerdydd – Glanconwy (A470) (Ffyrdd Cysylltu) 1999, fel y'u newidiwyd o ran Plan Allweddol 1, Plan Safle 4 a Phlan Safle 5 yn Blan Allweddol 1A, Plan Safle 4A a Phlan Safle 5A yn y plan a rifwyd HA10/2 WG7 a'i farcio "Gorchymyn Cefnffordd Castell-nedd – Y Fenni (A465) (Deuoli o'r Fenni i Hirwaun a'r Ffyrdd Ymuno ac Ymadael) a Ffordd Man i'r Dwyrain o Abercynon – Man i'r Dwyrain o Ddowlais (A4060) a Chefnffordd Caerdydd – Glanconwy (A470) (Ffyrdd Cysylltu) 1999 (Bryn-mawr i Dredegar) (Diwygio) 2012" ac

fel y'i newidiwyd ymhellach o ran Plan Allweddol 1A, Plan Safle 2, Plan Safle 3 a Phlan Safle 4A yn Blan Allweddol 1B, Plan Safle 2A, Plan Safle 3A a Phlan Safle 4B yn y plan adneuedig a rifwyd HA10/2 WG08 a'i farcio "Gorchymyn Cefnffordd Castell-nedd – Y Fenni (A465) (Deuoli o'r Fenni i Hirwaun a'r Ffyrdd Ymuno ac Ymadael) a Chefnffordd Man i'r Dwyrain o Abercynon – Man i'r Dwyrain o Ddowlais (A4060), Cefnffordd Caerdydd – Glanconwy (A470) (Ffyrdd Cysylltu) 1999, (Gilwern i Fryn-mawr) (Diwygio) 2014"

(3) OS. 1999/2720 (Cy. 9)
(4) O.S. 2012/2092 (Cy. 242)
(5) O.S. 2014/2716 (Cy. 272)

(2) In this Order the 'Principal Order' means the Neath to Abergavenny Trunk Road (A465) (Abergavenny to Hirwaun Dualling and Slip Roads) and East of Abercynon to East of Dowlais Trunk Road (A4060), Cardiff to Glan Conwy Trunk Road (A470) (Connecting Roads) Order 1999 (3) as amended by the Neath to Abergavenny Trunk Road (A465) (Abergavenny to Hirwaun Dualling and Slip Roads) and East of Abercynon to East of Dowlais Trunk Road (A4060), Cardiff to Glan Conwy Trunk Road (A470) (Connecting Roads) Order 1999 (Brynmawr to Tredegar) (Amendment) Order 2012 (4) and as further amended by the Neath to Abergavenny Trunk Road (A465) (Abergavenny to Hirwaun Dualling and Slip Roads) and East of Abercynon to East of Dowlais Trunk Road (A4060), Cardiff to Glan Conwy Trunk Road (A470) (Connecting Roads) Order 1999 (Gilwern to Brynmawr) (Amendment) Order 2014 (5).

**Amendment to the Deposited Plans Including the Illustration of the Route of the Main New Trunk Road**

2. In article 6 of the Principal Order, for paragraph (2)(i) substitute the following –

"(2)(i) "the deposited plan" means the plans numbered HA10/2 WO131 marked "The Neath to Abergavenny Trunk Road (A465) (Abergavenny to Hirwaun Dualling and Slip Roads) and East of Abercynon to East of Dowlais Trunk Road (A4060), Cardiff to Glan Conwy Trunk Road (A470) (Connecting Roads) Order 1999, as changed in respect of Key Plan 1, Site Plan 4 and Site Plan 5 to Key Plan 1A, Site Plan 4A and Site Plan 5A in the plan numbered HA10/2 WG7 marked "The Neath to Abergavenny Trunk Road (A465) (Abergavenny to Hirwaun Dualling and Slip Roads) and East of Abercynon to East of Dowlais Trunk Road (A4060), Cardiff to Glan Conwy Trunk Road (A470) (Connecting Roads) Order 1999 (Brynmawr to Tredegar) (Amendment) Order 2012" and

as further changed in respect of Key Plan 1A, Site Plan 2, Site Plan 3 and Site Plan 4A to Key Plan 1B, Site plan 2A, Site Plan 3A and Site Plan 4B in the deposited plan numbered HA10/2 WG08 marked "The Neath to Abergavenny Trunk Road (A465) (Abergavenny to Hirwaun Dualling and Slip Roads) and East of Abercynon to East of Dowlais Trunk Road (A4060), Cardiff to Glan Conwy Trunk Road (A470) (Connecting Roads) Order 1999, (Gilwern to Brynmawr) (Amendment) Order 2014

(3) S.I. 1999/2720 (W.9)
(4) S.I 2012/2092 (W.242)
(5) S.I. 2014/2716 (W.272)

ac

fel y'i newidiwyd ymhellach o ran Plan Allweddol 2, Plan Safle 7, Plan Safle 8, Plan Safle 9, Plan Safle 10 a Phlan Safle 11, yn Blan Allweddol 2A, Plan Safle 7A, Plan Safle 8A, Plan Safle 9A, Plan Safle 10A a Phlan Safle 11A yn y plan adneuedig a rifwyd HA10/2 WG 14 a'i farcio "Gorchymyn Gorchymyn Cefnffordd Castell-nedd – Y Fenni (A465) (Deuoli o'r Fenni i Hirwaun a'r Ffyrdd Ymuno ac Ymadael) a Ffordd Man i'r Dwyrain o Abercynon – Man i'r Dwyrain o Ddowlais (A4060), Cefnffordd Caerdydd – Glanconwy (A470) (Ffyrdd Cysylltu) 1999, (Dowlais Top i Hirwaun) (Diwygio) 2019"

a lofnodwyd ar ran Gweinidogion Cymru a'i adneuo (cyf qA1243569) yn adran Rheoli Gwybodaeth a Chofnodion Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.

**Hepgor Ffyrdd Ymuno ac Ymadael ac Ychwanegu Ffyrdd Ymuno ac Ymadael Newydd**

3. Yn Atodlen 2 o'r Prif Orchymyn, hepgorer paragraffau 16 i 18 a mewnosoder–

"16. Cyffordd aml-lefel i'r gogledd o Ysgol Uwchradd Pen-y-dre ac i'r gogledd o Ferthyr Tudful i ymuno â Ffordd Gylchol y Gurnos a gwasanaethu Ystad Ddiwydiannol y Pant a'r Galon Uchaf i gynnwys pedwar llwybr i gysylltu cerbytffyrdd tua'r dwyrain a thua'r gorllewin y brif gefnffordd newydd gyda chylchfan newydd y Gurnos y bwriedir darparu ar ei chyfer yn y gorchymyn ffyrdd ymyl cysylltiedig, ac y rhoddir iddi'r cyfeirnodau 50, 51, 52 a 53 ar y plan adneuedig ar Blan Safle rhif 8A (fel y'i diwygiwyd) fel a ganlyn:-

Llwybr rhyw 395 o fetrau o hyd sy'n cychwyn o bwynt 2260 o fetrau i'r gogledd-orllewin o ganolbwynt cylchfan Rocky Road ar gerbytffordd tua'r gorllewin y brif gefnffordd newydd i gyfeiriad cyffredinol y gogledd-orllewin hyd at bwynt 200 metr i'r de-orllewin o'r eiddo o'r enw Dan-y-castell Farm, i ymuno â cherbytffordd gylchredol cylchfan newydd y Gurnos y bwriedir darparu ar ei chyfer yn y gorchymyn ffyrdd ymyl cysylltiedig (rhoddir y cyfeirnod 50 i'r gefnffordd newydd ar hyd y llwybr hwn ar y plan adneuedig ar Blan Safle rhif 8A (fel y'i diwygiwyd)).

Llwybr rhyw 421 o fetrau o hyd sy'n cychwyn o bwynt 150 o fetrau i'r de-orllewin o'r eiddo o'r enw Dan-y-castell Farm (ar gerbytffordd gylchredol cylchfan newydd y Gurnos y bwriedir darparu ar ei chyfer yn y gorchymyn ffyrdd ymyl cysylltiedig) i gyfeiriad cyffredinol y de-ddwyrain i ymuno â

and

as further changed in respect of Key Plan 2, Site Plan 7, Site Plan 8, Site Plan 9, Site plan 10 and site plan 11, to Key Plan 2A, Site plan 7A, Site Plan 8A, site Plan 9A, Site Plan 10A and Site Plan 11A in the deposited plan numbered HA10/2 WG14 marked "The Neath to Abergavenny Trunk Road (A465) (Abergavenny to Hirwaun Dualling and Slip Roads) and East of Abercynon to East of Dowlais Trunk Road (A4060), Cardiff to Glan Conwy Trunk Road (A470) (Connecting Roads) Order 1999, (Dowlais Top to Hirwaun) (Amendment) Order 2019"

signed on behalf of the Welsh Ministers and deposited (ref qA1243569) at the Welsh Government Information and Records Management, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ .

**Omission of Slip Roads and Addition of New Slip Roads**

3. In Schedule 2 of the Principal Order, omit paragraphs 16 to 18 and insert –

"16. Grade separated junction located north of Pen-y-Dre High School and north of Merthyr Tydfil to join Gurnos Ring Road and serve Pant Industrial Estate and Galon Uchaf to include four routes to connect the eastbound and westbound carriageways of the main new trunk road with a new Gurnos roundabout to be provided for in the associated side roads order, and given the reference numbers 50, 51, 52 and 53 on the deposited plan at Site Plan number 8A (as amended) as follows:-

A route some 395 metres in length commencing at a point 2260 metres north west of the centre point of Rocky Road roundabout on the westbound carriageway of the main new trunk road in a generally north westerly direction to a point 200 metres south west of the property known as Dan-y-Castell Farm, to join the circulatory carriageway of a new Gurnos roundabout to be provided for in the associated side roads order (the new trunk road along this route being given the reference number 50 on the deposited plan at Site Plan number 8A (as amended)).

A route some 421 metres in length commencing at a point 150 metres south west of the property known as Dan-y-Castell Farm (on the circulatory carriageway of a new Gurnos roundabout to be provided for in the associated side roads order) in a generally south easterly direction to join the eastbound carriageway of the main new trunk road at a point 205 metres generally north west of the centre point of the Rocky Road Roundabout (the new trunk road along this route

cherbytffordd tua'r dwyrain y brif gefnffordd newydd wrth bwynt 205 o fetrau i gyfeiriad cyffredinol y gogledd-orllewin o ganolbwynt Cylchfan Rocky Road (rhoddir y cyfeirnod 51 i'r gefnffordd newydd ar hyd y llwybr hwn ar y plan adneuedig ar Blan Safle rhif 8A (fel y'i diwygiwyd)).

17. Llwybr rhyw 605 o fetrau o hyd sy'n cychwyn o bwynt 250 o fetrau i'r de-orllewin o ganolbwynt yr eiddo o'r enw Dan-y-castell Farm i'r gogledd o Ysgol Pen-y-dre (ar gerbytffordd gylchredol cylchfan newydd y Gurnos y bwriedir darparu ar ei chyfer yn y gorchymyn ffyrdd ymyl cysylltiedig) i ymuno â cherbytffordd tua'r gorllewin y brif gefnffordd newydd, i gyfeiriad cyffredinol y de-orllewin hyd at bwynt 105 o fetrau i'r dwyrain o danffordd Gurnos Road Farm (rhoddir y cyfeirnod 52 i'r gefnffordd newydd ar hyd y llwybr hwn ar y plan adneuedig ar Blan Safle rhif 8A (fel y'i diwygiwyd)).

18. Llwybr rhyw 665 o fetrau o hyd sy'n cychwyn o bwynt ar gerbytffordd tua'r dwyrain y brif gefnffordd newydd 100 metr i'r gogledd-ddwyrain o danffordd Gurnos Road Farm, i gyfeiriad cyffredinol y gogledd-ddwyrain hyd at bwynt 190 o fetrau i'r de-orllewin o'r eiddo o'r enw Dan-y-castell Farm (ar gerbytffordd gylchredol cylchfan newydd y Gurnos y bwriedir darparu ar ei chyfer yn y gorchymyn ffyrdd ymyl cysylltiedig), (rhoddir y cyfeirnod 53 i'r gefnffordd newydd ar hyd y llwybr hwn ar y plan adneuedig ar Blan Safle rhif 8A (fel y'i diwygiwyd))."

**Diwygio'r disgrifiad o lwybrau'r Ffyrdd Ymuno ac Ymadael newydd (newid i drefniant y ffordd gysylltu wrth y gyffordd hon)**

4. Yn Atodlen 2 o'r Prif Orchymyn ym mharagraff 19 yn yr ail is-baragraff dileer "chylchfan ar lun dymbel" a mewnosoder "dwy gylchfan gysylltiedig".

**Diwygio llwybrau'r Ffyrdd Ymuno ac Ymadael newydd (Cyffordd a Llwybrau'r Ffyrdd Ymuno ac Ymadael i'w Hailalinio)**

5. Yn Atodlen 2 o'r Prif Orchymyn, hepgorer paragraff 20 a mewnosoder –

"20. Cyffordd aml-lefel yn Baverstock - wedi ei hailalinio i'r gorllewin tuag at Amlosgfa Llwydcoed (Plan Safle 10A).

Pedwar llwybr i gysylltu cerbytffyrdd tua'r dwyrain a thua'r gorllewin y brif gefnffordd newydd â dwy gylchfan gysylltiedig sydd i'w hadeiladu fel rhan o'r briffordd y bwriedir darparu ar ei chyfer yn y gorchymyn ffyrdd ymyl cysylltiedig, yn Baverstock i'r de-orllewin o Jah Jireh Nursing Home (a arferai gael ei

being given the reference number 51 on the deposited plan at Site Plan number 8A (as amended)).

17. A route some 605 metres in length commencing at a point 250 metres south west of the centre point of the property known as Dan- y -Castell Farm north of Pen- y-Dre School (on the circulatory carriageway of a new Gurnos Roundabout to be provided for in the associated side roads order) to join the westbound carriageway of the main new trunk road, in a generally south westerly direction to a pont 105 metres east of the Gurnos Road Farm underpass (the new trunk road along this route being given the reference number 52 on the deposited plan at Site Plan number 8A (as amended)).

18. A route some 665 metres in length commencing at a point on the eastbound carriageway of the main new trunk road 100 metres north east of the Gurnos Road Farm underpass, in a generally north easterly direction to a point 190 metres south west of the property known as Dan -y -Castell Farm (on the circulatory carriageway of a new Gurnos roundabout to be provided for in the associated side roads order) (the new trunk road along this route being given the reference number 53 on the deposited plan at Site Plan number 8A (as amended))."

**Amendment to the description of the routes of the new Slip Roads (Change to the connecting road arrangement at this junction)**

4. In Schedule 2 of the Principal Order in paragraph 19 in the second sub-paragraph delete "a dumb-bell shaped roundabout" and insert "two linked roundabouts".

**Amendment to the routes of the new Slip Roads (Junction and Routes of Slip Roads to be Realigned)**

5. In Schedule 2 of the Principal Order, omit paragraph 20 and insert –

"20. Grade separated junction at Baverstock - Realigned west toward Llwydcoed Crematorium (Site Plan 10A).

Four routes to connect the eastbound and westbound carriageways of the main new trunk road with two linked roundabouts to be constructed as part of the highway to be provided for in the associated side roads order, at Baverstock south west of the Jah Jireh Nursing Home (previously known as the Baverstock Hotel) and north and north east of the Llwydcoed Crematorium (the new trunk roads along these routes being given the numbers 41, 42, 43 and 44 on the

alw'n Westy Baverstock) ac i'r gogledd a'r gogledd-ddwyrain o Amlosgfa Llwydcoed (rhoddir y cyfeirnodau 41, 42, 43 a 44 i'r cefnffyrdd newydd ar hyd y llwybrau hyn ar y plan adneuedig ar Blan Safle rhif 10A (fel y'i diwygiwyd)).

Llwybr rhyw 555 o fetrau o hyd sy'n cychwyn o bwynt ar gerbytffordd tua'r gorllewin y brif gefnffordd newydd 90 o fetrau i'r de-ddwyrain o'r gyffordd rhwng cefnffordd bresennol yr A465 a'r ffordd sy'n arwain at Jah Jireh Nursing Home, i gyfeiriad cyffredinol y de-orllewin hyd at bwynt 155 o fetrau i'r de-orllewin o'r gyffordd rhwng cefnffordd bresennol yr A465 a'r ffordd ddiddosbarth sy'n arwain at Groesbychan (ar gerbytffordd gylchredol cylchfan newydd y bwriedir darparu ar ei chyfer yn y gorchymyn ffyrdd ymyl cysylltiedig), (rhoddir y cyfeirnod 41 i'r gefnffordd newydd ar hyd y llwybr hwn ar y plan adneuedig ar Blan Safle rhif 10A (fel y'i diwygiwyd)).

Llwybr rhyw 522 o fetrau o hyd sy'n cychwyn o bwynt 200 metr i'r gogledd o'r eiddo o'r enw Tŷ Gwyn Farm (ar gerbytffordd gylchredol cylchfan newydd y bwriedir darparu ar ei chyfer yn y gorchymyn ffyrdd ymyl cysylltiedig) i gyfeiriad cyffredinol y gogledd-orllewin i ymuno â cherbytffordd tua'r dwyrain y brif gefnffordd newydd wrth bwynt 300 metr i'r gogledd o'r gyffordd rhwng y ffordd ddiddosbarth sy'n arwain at Groesbychan a'r ffordd sy'n arwain at Amlosgfa Llwydcoed (rhoddir y cyfeirnod 42 i'r gefnffordd newydd ar hyd y llwybr hwn ar y plan adneuedig ar Blan Safle rhif 10A (fel y'i diwygiwyd)).

Llwybr rhyw 516 o fetrau o hyd sy'n cychwyn o bwynt 240 o fetrau i'r gogledd-orllewin o'r gyffordd rhwng cefnffordd bresennol yr A465 a'r ffordd ddiddosbarth sy'n arwain at Groesbychan (ar gerbytffordd gylchredol cylchfan newydd y bwriedir darparu ar ei chyfer yn y gorchymyn ffyrdd ymyl cysylltiedig) i gyfeiriad cyffredinol y gogledd-ddwyrain i ymuno â cherbytffordd tua'r dwyrain y brif gefnffordd newydd ar bwynt 200 metr i'r dwyrain o'r gyffordd rhwng cefnffordd bresennol yr A465 a'r ffordd sy'n arwain at Jah Jireh Nursing Home (rhoddir y cyfeirnod 43 i'r gefnffordd newydd ar hyd y llwybr hwn ar y plan adneuedig ar Blan Safle rhif 10A (fel y'i diwygiwyd))."

Llwybr rhyw 454 o fetrau o hyd sy'n cychwyn o bwynt ar gerbytffordd tua'r dwyrain y brif gefnffordd newydd 764 o fetrau i'r gorllewin o'r gyffordd rhwng y ffordd ddiddosbarth sy'n arwain at Groesbychan a'r ffordd sy'n arwain at Amlosgfa Llwydcoed i gyfeiriad cyffredinol y dwyrain hyd at bwynt 350 o fetrau i'r gogledd-orllewin o'r eiddo o'r enw Tŷ Gwyn Farm (ar

deposited plan at site plan No. 10A as amended).

A route some 555 metres in length commencing at a point on the westbound carriageway of the main new trunk road 90 metres south east of the junction between the existing A465 trunk road and the road leading to the Jah Jireh Nursing Home, in a generally southwesterly direction to a point 155 metres south west of the junction between the existing A465 trunk road and the unclassified road leading to Croesbychan (on the circulatory carriageway of a new roundabout to be provided for in the associated side roads order)(the new trunk road along this route being given the reference number 41 on the deposited plan at Site Plan number 10A (as amended)).

A route some 522 metres in length commencing at a point 200 metres north of the property known as Ty Gwyn Farm (on the circulatory carriageway of a new roundabout to be provided for in the associated side roads order) in a generally north westerly direction to join the eastbound carriageway of the main new trunk road at a point 300 metres north of the junction between the unclassified road leading to Croesybychan and the road leading to Llwydcoed Crematorium (the new trunk road along this route being given the reference number 42 on the deposited plan at Site Plan number 10A (as amended)).

A route some 516 metres in length commencing at a point 240 metres north west of the junction between the existing A465 trunk road and the unclassified road leading to Croesbychan (on the circulatory carriageway of a new roundabout to be provided for in the associated side roads order) in a generally north easterly direction to join the eastbound carriageway of the main new trunk road at a point 200 metres east of the junction between the existing A465 trunk road and the road leading to the Jan Jireh Nursing Home (the new trunk road along this route being given the reference number 43 on the deposited plan at Site Plan number 10A (as amended))."

A route some 454 metres in length commencing at a point on the eastbound carriageway of the main new trunk road 764 metres west of the junction between the unclassified road leading to Croesybychan and the road leading to Llwydcoed Crematorium in a generally easterly direction to a point 350 metres north west of the property known as Ty Gwyn Farm (on the circulatory carriageway of a new roundabout to be provided for in the associated side roads order) (the new trunk road along this route being given the reference number 44 on the deposited plan at Site Plan number 10A (as amended))."

gerbytffordd gylchredol cylchfan newydd y bwriedir darparu ar ei chyfer yn y gorchymyn ffyrdd ymyl cysylltiedig) (rhoddir y cyfeirnod 44 i'r gefnffordd newydd ar hyd y llwybr hwn ar y plan adneuedig ar Blan Safle rhif 10A (fel y'i diwygiwyd))."

**Ychwanegu Llwybrau Newydd Ffyrdd Ymuno ac Ymadael (Cyffordd newydd yng Nghroesbychan)**

**6.** Yn Atodlen 2 o'r Prif Orchymyn, mewnosoder ar ôl paragraff 22-

"23. Cyffordd aml-lefel yng Nghroesbychan (Plan Safle 11A (fel y'i diwygiwyd)).

Pedwar llwybr i gysylltu cerbytffyrdd tua'r dwyrain a thua'r gorllewin y brif gefnffordd newydd gyda dwy gylchfan gysylltiedig (y bwriedir darparu ar eu cyfer yn y gorchymyn ffyrdd ymyl cysylltiedig), i'r de-ddwyrain o'r eiddo o'r enw Lynwood ac i'r gogledd-ddwyrain o Hirwaun (rhoddir y rhifau 54, 55, 56 a 57 i'r cefnffyrdd newydd ar hyd y llwybrau hyn ar y plan adneuedig ar Blan Safle rhif 11A (fel y'i diwygiwyd)).

Llwybr rhyw 585 o fetrau o hyd sy'n cychwyn o bwynt ar gerbytffordd tua'r dwyrain y brif gefnffordd newydd 350 o fetrau i'r de-ddwyrain o Court Farm, i gyfeiriad cyffredinol y gogledd-ddwyrain, hyd at bwynt 100 metr i'r gogledd-ddwyrain o'r eiddo o'r enw Lynwood (ar gerbytffordd gylchredol cylchfan newydd y bwriedir darparu ar ei chyfer yn y gorchymyn ffyrdd ymyl cysylltiedig) (rhoddir y cyfeirnod 54 i'r gefnffordd newydd ar hyd y llwybr hwn ar y plan adneuedig ar Blan Safle rhif 11A (fel y'i diwygiwyd)).

Llwybr rhyw 475 o fetrau o hyd sy'n cychwyn o bwynt 335 o fetrau i'r de o Nantmoel Farm (ar gerbytffordd gylchredol cylchfan newydd y bwriedir darparu ar ei chyfer yn y gorchymyn ffyrdd ymyl cysylltiedig) i gyfeiriad cyffredinol y gogledd-ddwyrain i ymuno â cherbytffordd tua'r dwyrain y brif gefnffordd newydd wrth bwynt 210 o fetrau i'r dwyrain o Nantmoel Farm (rhoddir y cyfeirnod 55 i'r gefnffordd newydd ar hyd y llwybr hwn ar y plan adneuedig ar Blan Safle rhif 11A (fel y'i diwygiwyd)).

Llwybr rhyw 582 o fetrau o hyd sy'n cychwyn o bwynt ar gerbytffordd tua'r gorllewin y brif gefnffordd newydd 350 o fetrau i'r dwyrain o Nantmoel Farm i gyfeiriad cyffredinol y de-orllewin hyd at bwynt 110 o fetrau i'r gorllewin o'r eiddo o'r enw La Plat (ar gerbytffordd gylchredol cylchfan newydd y bwriedir darparu ar ei chyfer yn y gorchymyn ffyrdd ymyl cysylltiedig) (rhoddir y cyfeirnod 56 i'r gefnffordd newydd ar hyd y llwybr hwn ar y plan adneuedig ar Blan Safle rhif 11A (fel y'i diwygiwyd)).

**Addition of New Routes of Slip Roads (New junction at Croesbychan)**

**6.** In Schedule 2 of the Principal Order, insert after paragraph 22-

"23. Grade Separated Junction at Croesbychan (Site Plan 11A (as amended)).

Four routes to connect the eastbound and westbound carriageways of the main new trunk road with two linked roundabouts (to be provided for in the associated side roads order), located south east of the property known as Lynwood and north east of Hirwaun (the new trunk roads along these routes being given the numbers 54, 55, 56 and 57 on the deposited plan at Site Plan No. 11A as amended).

A route some 585 metres in length commencing at a point on the eastbound carriageway of the main new trunk road 350 metres south east of Court Farm, in a generally north easterly direction, to a point 100 metres north east of the property known as Lynwood (on the circulatory carriageway of a new roundabout to be provided for in the associated side roads order) (the new trunk road along this route being given the reference number 54 on the deposited plan at Site Plan number 11A (as amended)).

A route some 475 metres in length commencing at a point 335 metres south of Nantmoel Farm (on the circulatory carriageway of a new roundabout to be provided for in the associated side roads order) in a generally north easterly direction to join the eastbound carriageway of the main new trunk road at a point 210 metres east of Nantmoel Farm(the new trunk road along this route being given the reference number 55 on the deposited plan at Site Plan number 11A (as amended)).

A route some 582 metres in length commencing at a point on the westbound carriageway of the main new trunk road 350 metres east of Nantmoel Farm in a generally south westerly direction to a point 110 metres west of the property known as La Plat (on the circulatory carriageway of a new roundabout to be provided for in the associated side roads order) (the new trunk road along this route being given the reference number 56 on the deposited plan at Site Plan number 11A (as amended)).

A route some 467 metres in length commencing at a point 140 metres west of La Plat (on the circulatory carriageway of a new roundabout to be provided for in the associated side roads order) in a generally south westerly direction to join the eastbound carriageway of the main new trunk road at a point 380

Llwybr rhyw 467 o fetrau o hyd sy'n cychwyn o bwynt 140 o fetrau i'r gorllewin o La Plat (ar gerbytffordd gylchredol cylchfan newydd y bwriedir darparu ar ei chyfer yn y gorchymyn ffyrdd ymyl cysylltiedig) i gyfeiriad cyffredinol y de-orllewin i ymuno â cherbytffordd tua'r dwyrain y brif gefnffordd newydd wrth bwynt 380 o fetrau i'r de-ddwyrain o Court Farm (rhoddir y cyfeirnod 57 i'r gefnffordd newydd ar hyd y llwybr hwn ar y plan adneuedig ar Blan Safle rhif 11A (fel y'i diwygiwyd)).

**Diwygio Llwybr Cefnffordd Gysylltu Newydd**

**7.** Yn Atodlen 3 o'r Prif Orchymyn, yn llinellau 2 a 3 o'r ail baragraff dileër y geiriau "sef llwybr rhyw 460 metr o hyd sy'n ffurfio cyffordd aml-lefel ar lun dymbel" a mewnosoder yn eu lle "sef llwybr rhyw 520 o fetrau o hyd sy'n ffurfio dwy gylchfan a chyswllt ar ffurf cyffordd aml-lefel".

Llofnodwyd ar ran Gweinidogion Cymru.

Dyddiedig: 16 Ebrill 2019

*Richard Morgan*
Pennaeth Cynllunio, Rheoli Asedau a Safonau
Llywodraeth Cymru

metres south east of Court Farm(the new trunk road along this route being given the reference number 57 on the deposited plan at Site Plan number 11A (as amended))."

**Amendment to a Route of a New Connecting Trunk Road**

**7.** In Schedule 3 of the Principal Order, in lines 2 and 3 of the second paragraph delete "is a route about 460 metres in length forming a dumb-bell shaped grade separated junction" and insert in its place "is a route about 520 metres in length forming two roundabouts and a link being a grade separated junction".

Signed on behalf of the Welsh Ministers.

Dated: 16 April 2019

*Richard Morgan*
Head of Planning, Asset Management and Standards
Welsh Government